


Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Grantiau Bach – Creu Coetir

Mynegi Diddordeb

# Defnyddio RPW Ar-lein i wneud cais

**Contents**

**ADRAN 1 - DECHRAU ARNI** ........ **4**
RPW Ar-lein ........ 4
Mynegi Diddordeb yn y cynllun Grantiau Bach – Creu Coetir ........ 6

**ADRAN 2 – GOLWG AR Y BOTYMAU RHEOLI** ........ **7**

**ADRAN 3 – Y CAIS** ........ **8**
Dechrau ar y Cais ........ 8
Cyflwyniad ........ 9
Hysbysiad Preifatrwydd ........ 10
Pwy sy'n Gymwys ........ 11
Rheolaeth Lwyr ........ 11
Tenantiaid ........ 11
Asesu'r Effaith Amgylcheddol ........ 11
Ydy'r tir rydych am ei blannu wedi'i wella'n amaethyddol? ........ 12
Holi cymdogion ac unigolion sydd ag eiddo sy'n ffinio â'r tir rydych am blannu arno ........ 12
Dulliau Plannu ........ 12
Amodau'r Contract ........ 13
Plannu Coetir ........ 14
Golwg ar y Sgrin Fapiau ........ 14
Ychwanegu Lleiniau Plannu at eich Mynegiant o Ddiddordeb ........ 17
Tynnu amlinell o'r coetir sy'n cael ei blannu ........ 18
Ychwanegu Ffens at y Llain Plannu ........ 21
Ychwanegu Gatiau at eich Mynegiant o Ddiddordeb ........ 23
Prif Dudalen Plannu Coetir ........ 25
Ychwanegu Opsiynau Dŵr at eich Mynegiant o Ddiddordeb ........ 27
Pibelli cyflenwi dŵr ........ 28
Gât Ddŵr ........ 30
Cafnau dŵr ........ 31

**ADRAN 4 – CYFLWYNO** ........ **33**
Camgymeriadau, Gwybodaeth a Chrynodeb ........ 33
Datganiadau ac Ymrwymiadau ........ 34
Tudalen Gyflwyno ........ 35

**ADRAN 5 - BETH I'W WNEUD AR ÔL CYFLWYNO'R FFURFLEN YN LLWYDDIANNUS** ........ **36**
Tystiolaeth Ddogfennol ........ 36
Newid ac Ychwanegu ........ 36
Tynnu'ch ffurflen Mynegi Diddordeb yn ôl ........ 36

© Hawlfraint y Goron 2026 ISBN digidol: 978-1-80364-726-5 

# Grantiau Bach – Creu Coetir – Mynegi Diddordeb

# Defnyddio RPW Ar-lein i wneud cais

**Pwysig:**

Mae'r canllaw hwn yn rhoi cyfarwyddiadau manwl, gam wrth gam ynghylch sut i Fynegi Diddordeb yng nghynllun Grantiau Bach – Creu Coetir.

Mae Llywodraeth Cymru yn darparu'r Canllaw yn Saesneg yn ogystal â'r Gymraeg, yn unol â Chynllun Iaith Gymraeg Llywodraeth Cymru. Os hoffech gopi o'r canllaw hwn yn yr iaith arall, gallwch fynd ati o llyw.cymru trwy glicio ar y dewisydd iaith ar dop y dudalen ac ailagor y ddogfen.

Os ydych yn cael trafferth neu os nad ydych yn gallu cysylltu â'n gwefan, ffoniwch Ddesg Gymorth RPW Ar-lein ar 0300 062 5004.

## ADRAN 1 - DECHRAU ARNI


### RPW Ar-lein


Bydd angen i chi fewngofnodi i GOV.UK One Login i gael mynediad at eich cyfrif RPW Ar-lein.


Gallwch gael mynediad i'r dudalen mewngofnodi trwy Creu eich GOV.UK One Login neu fewngofnodi - GOV.UK One Login

Dewiswch i greu eich Un Mewngofnodi GOV.UK neu fewngofnodi i'ch Cyfrif RPW Ar-lein - rhowch eich cyfeiriad e-bost a'ch cyfrinair yn y blychau a chliciwch 'Parhau'.

Gallwch ddod o hyd i'r canllawiau defnyddiwr diweddaraf a'r diweddariadau a RPW Ar-Lein: sut i gofrestru LLYW.CYMRU










Os ydych yn cael trafferth neu os nad ydych yn gallu defnyddio'ch cyfrif ar-lein, ffoniwch Ddesg Gymorth RPW Ar-lein ar 0300 062 5004.

Ar ôl i chi fewngofnodi i'ch cyfrif ar-lein fe welwch dudalen 'Hafan' RPW Ar-lein. Bydd y dudalen hon yn dangos gwybodaeth a negeseuon yr ydych wedi'u derbyn neu eu hanfon, a byddwch yn gallu dechrau llenwi a chyflwyno unrhyw geisiadau sydd ar gael.

## Mynegi Diddordeb yn y cynllun Grantiau Bach – Creu Coetir

I ddechrau'r broses o Fynegi Diddordeb yn y cynllun Grantiau Bach – Creu Coetir, cliciwch ar y ddolen berthnasol dan **Dechrau Ffurflen**, fel y gwelwch isod:



## ADRAN 2 – GOLWG AR Y BOTYMAU RHEOLI


Dyma olwg ar y botymau rheoli sy'n ymddangos ar bob tudalen. Bydd angen i chi eu defnyddio i lenwi'ch Cais:

| | |
|---|---|
| Cymraeg English | Ar ochr chwith isa'r dudalen. Bydd y botwm hwn yn gadael i chi newid iaith eich Cais. |
| Help ❓ | Ar ochr chwith ucha'r dudalen. Bydd y botwm hwn yn mynd â chi at ddogfen D*efnyddio RPW Ar-lein i wneud cais* y cynllun. |
| ‹ Yn ôl  Nesaf › | Ar ochr dde uchaf ac ochr dde isa'r dudalen. Bydd y botymau hyn yn mynd â chi yn ôl ac ymlaen rhwng tudalennau'ch Cais. |
| Printio | Ar ochr chwith isa'r dudalen. Bydd y botwm hwn yn gadael i chi argraffu ciplun o'ch Cais fel y mae. **Pwysig**: Ni fyddwn yn derbyn copïau wedi'u hargraffu o'ch Cais. |
| Safio | Ar ochr dde uchaf ac ochr dde isa'r dudalen. Cliciwch ar y botwm hwn i gadw unrhyw newidiadau. Gallwch hefyd glicio'r botwm hwn i weld a yw'r newidiadau rydych wedi'u gwneud yn dderbyniol. |
| ✖ Gadael | Ar ochr chwaith isa'r dudalen. Cliciwch arno i adael eich Cais. Bydd newidiadau'n cael eu cadw yn awtomatig. |
| ✔ ✖ ℹ | Mae'r arwyddion hyn yn ymddangos wrth ochr pob adran o'ch Cais, ar ochr chwith y dudalen. |
| ✔ | Mae'r tic gwyrdd yn ymddangos os ydy'r wybodaeth mewn adran yn dderbyniol. |
| ✖ | Mae'r groes goch yn ymddangos os oes adran/tudalen heb ei gweld eto, neu os oes angen cywiro camgymeriad. |
| ℹ | Mae'r eicon Gwybodaeth glas yn ymddangos os oes neges gwybodaeth wedi'i chreu am fod newid wedi'i wneud i'r ffurflen. |

# ADRAN 3 – Y CAIS

## Dechrau ar y Cais

Ar ôl dewis y ddolen briodol i ddechrau Mynegi'ch Diddordeb, byddwch yn gweld y dudalen ganlynol.




Cyn cychwyn, cadarnhewch fod eich manylion yn gywir. Os oes angen, gallwch eu newid drwy glicio ar **Fanylion y Cwsmer** neu **Dewisiadau Ar-lein**.

Os yw'r manylion sy'n cael eu dangos yn gywir, dewiswch y botwm **Dechrau**. Bydd hyn yn eich arwain at sgrin y Cyflwyniad.


Pwysig: Os byddwch yn gadael Cais ar ei hanner, caiff y newidiadau eu cadw i chi allu ei orffen wedyn. Pan ewch yn ôl ato, bydd y dudalen **Parhau â Chais** yn ymddangos. Ond bydd opsiwn i ailddechrau trwy glicio ar **Ddechrau Eto.** Bydd hynny'n dileu'ch Cais presennol a gallwch ddechrau'r broses gyflwyno eto.



## Cyflwyniad

Mae'r dudalen hon yn rhoi negeseuon pwysig i chi am eich Cais. Gwnewch yn siŵr eich bod yn eu darllen yn ofalus cyn dechrau.

Mae dolen arni hefyd i fynd â chi at y **Llyfryn Rheolau** a’r **Canllaw Sut i Lenwi** perthnasol ar wefan Llywodraeth Cymru.





Ar ôl i chi ddarllen a deall y Llyfryn Rheolau a'r Prif Negeseuon, cliciwch ar 'Nesaf' i symud ymlaen at sgrin nesaf y Cais.

## Hysbysiad Preifatrwydd


Mae’r sgrin hon yn dangos sut y bydd Llywodraeth Cymru’n trafod yr wybodaeth y byddwch yn ei chyflwyno wrth Fynegi Diddordeb.

Gofalwch eich bod yn darllen ac yn deall sut y bydd eich data’n cael eu defnyddio.



## Pwy sy'n Gymwys

Mae'r dudalen hon am weld a ydych yn gymwys i ymuno â'r cynllun. Cofiwch ateb pob cwestiwn. Ar ôl ateb pob cwestiwn, cliciwch ar **Safio** neu **Nesaf.** Os byddwch yn dewis ateb sy'n groes i reolau'r cynllun, fe welwch neges i ddangos bod camgymeriad wedi'i wneud. Ni chewch fynd yn eich blaen i Fynegi Diddordeb os oes camgymeriadau wedi'u gwneud.




### Rheolaeth Lwyr

Rhaid bod gennych reolaeth lwyr ar y tir y byddwch yn plannu arno pan fyddwch yn Mynegi Diddordeb a gydol cyfnod eich contract.

### Tenantiaid

Os ydych yn denant, rhaid ichi gael caniatâd eich landlord i'r tir gael bod yn rhan o'r cynllun. Ni fyddwch yn gymwys os nad yw'ch landlord wedi rhoi sêl ei fendith ichi blannu coed. Ni fydd tir o dan Drwydded Bori yn gymwys ar gyfer y cynllun.

### Asesu'r Effaith Amgylcheddol

Er mwyn cadw at y Rheoliadau Asesu'r Effaith Amgylcheddol (Coedwigaeth), rhaid ystyried effaith amgylcheddol unrhyw goetir sydd wedi'i blannu ar dir cyffiniol yn ogystal ag effaith y coetir rydych chi am ei blannu. Mae hyn yn cynnwys coetir sydd wedi'i greu ar dir eich cymydog. Mae tir cyffiniol yn golygu tir sydd o fewn 10m i'r tir rydych yn cynnig plannu coed arno.

Y Trothwy ar gyfer Asesu'r Effaith Amgylcheddol (EIA) yw 2ha os oes unrhyw ran o'r tir mewn Parc Cenedlaethol neu Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol (AHNE), a 5ha ar gyfer unrhyw dir arall. Bydd unrhyw goed a blannwyd yn y 5 mlynedd diwethaf sy'n ffinio â'r coetir rydych chi am ei greu gan gynnwys ar dir cymydog yn cyfrif at y trothwy hwn.

Os nad yw'r tir rydych am ei blannu yn bodloni gofynion yr EIA, dylech ystyried gwneud cais i'r Cynllun Cynllunio Creu Coetir.

Am ragor o wybodaeth, ewch i Cyfoeth Naturiol Cymru / Cynllunio fy Mhrosiect Coedwigaeth

Ydy'r tir rydych am ei blannu wedi'i wella'n amaethyddol?

Darllenwch **Diogelu Cynefin a all fod yn Sensitif** yn Adran A – Asesu Safle y Canllaw Grantiau Bach – Creu Coetir i'ch helpu i benderfynu a yw'ch tir wedi'i wella'n amaethyddol.

Bydd rhaid ichi edrych a oes Cynefin â Blaenoriaeth neu Safle o Bwysigrwydd er Cadwraeth Natur lle rydych am blannu coed. Os oes, yna nid yw'r coetir rydych am ei greu'n bodloni gofynion y cynllun a chaiff eich cais ei wrthod. Gallwch wneud cais i'r Cynllun Cynllunio Creu Coetir yn lle hynny efallai, a pharatoi plan creu coetir gyda chymorth Cynlluniwr Coetiroedd cofrestredig.

Holi cymdogion ac unigolion sydd ag eiddo sy'n ffinio â'r tir rydych am blannu arno

Byddwch wedi holi'r unigolion sydd ag eiddo sy'n ffinio â'r tir rydych am blannu arno. Os oes gan y cymdogion bryderon na allwch eu datrys, bydd gofyn ichi naill ai addasu'ch cynllun a dod i gytundeb cyn cyflwyno'ch cais, neu os nad oes sail i'w gwrthwynebiad, gallwch wneud cais i'r Cynllun Cynllunio Creu Coetir.


Dulliau Plannu

Darllenwch y bennod **Dulliau Plannu** yn Adran A – Asesu Safle y Canllaw Grantiau Bach – Creu Coetir am help i weld a yw'r dull plannu rydych am ei ddefnyddio yn gymwys.

Rhaid ichi blannu'r coed trwy ddefnyddio dulliau plannu â llaw, creithio hadau neu dwmpathau wyneb i waered neu golynnog. Os ydych am blannu'r coetir trwy ddulliau eraill, caiff eich cais mynegi diddordeb ei wrthod.

## Amodau'r Contract

Darllenwch **Adran A - Asesu Safleoedd** y **Canllaw Grantiau Bach – Creu Coetir** am help i asesu'r tir rydych am blannu coetir arno er mwyn ichi allu ateb cwestiynau Amodau'r Contract yn gywir. Rhaid ateb y cwestiynau hyn.





Mae'r **Canllaw Grantiau Bach – Creu Coetir** yn rhoi gwybodaeth ynghylch sut i asesu'r canlynol:




- Diogelu cynefin all fod yn sensitif
- Cynefinoedd â Blaenoriaeth
- Safleoedd o Bwysigrwydd er Cadwraeth Natur
- Hawliau tramwy cyhoeddus
- Cyfleustodau uwchben neu o dan y ddaear
- Plannu wrth ymyl prif afonydd, nentydd a phyllau
- Tystiolaeth o foch daear
- Perthi/gwrychoedd, waliau cerrig a chloddiau sy'n rhan o'r tir rydych am ei blannu neu gerllaw iddo
- Ardal Gwarchod Gwiwerod Coch
- Dulliau Plannu
- Amddiffyn rhag ceirw
- Coed yno eisoes
- Plannu wrth adeilad anamaethyddol




**Plannu Coetir**

Mae'r dudalen Plannu Coetir yn ffordd ichi ddangos ble ar eich tir rydych am blannu coetir o dan y cynllun.  Gyda phob darn o dir unigol y byddwch yn creu coetir arno, bydd opsiwn ffens a gât cysylltiedig. Efallai y byddwch yn plannu coetir ar sawl llain gwahanol, bob un â'i opsiwn ffens, gât a dŵr.

Golwg ar y Sgrin Fapiau


| | |
|---|---|
|  | Mae **llinellau terfyn coch** yn dynodi'r tir yr ydych wedi cofrestru gyda Llywodraeth Cymru. Cewch ychwanegu ardaloedd o blannu oddi fewn i'ch tir cofrestredig. Caiff unrhyw arwynebedd o blannu oddi allan i ystent eich tir cofrestredig ei 'docio' o'r llain plannu terfynol. |
|  | Mae'r **polygonau coch** yn dangos y mannau sy'n anghymwys ar gyfer eu plannu o dan y cynllun hwn.  Os byddwch yn tynnu siâp dros ddarn anghymwys, caiff y darn anghymwys ei 'docio' o'r llain plannu terfynol. |
|  | Caiff **Nodweddion Parhaol** eu dynodi a chroeslinellu porffor/glas. |
|  | Bydd **saeth y llygoden** (y cylch glas) yn gwneud dau beth pan yn y map:<br><br>Cliciwch a daliwch fotwm chwith y llygoden i lusgo/symud y map o gwmpas y sgrin.<br><br>Cliciwch fotwm chwith y llygoden unwaith i greu pwynt – pan fyddwch yn **Lluniadu'r Arwynebedd, lluniadu ffensio** neu'n **Dileu yr Arwynebedd**. |
|  | Cliciwch ar y botwm **hafan** i zwmio allan a gweld trosolwg o'ch holl dir. |

| | |
|---|---|
|  | Defnyddiwch y **blwch chwilio** i gael hyd i rifau'r caeau sydd wedi'u cofrestru i chi. Gallwch chwilio hefyd gan ddefnyddio'r cod post.<br><br>Dechreuwch trwy deipio rhif y ddalen yn y blwch a bydd rhestr o ganlyniadau'n ymddangos. Cliciwch ar rif i fynd â'r map i'r lleoliad hwnnw. |
|  | Defnyddiwch y botwm **Tynnu Amlinell y Ffin** i greu amlinell y darn tir rydych am blannu coed arno. Cliciwch ar y map i ddechrau tynnu'r siâp; cliciwch i greu pwyntiau ychwanegol; cliciwch ar y pwynt cyntaf i gwblhau'r siâp, neu gliciwch ddwywaith i ychwanegu pwynt a chwblhau'r siâp. Sylwch y bydd y cyrchwr yn neidio i linell y ffin pan fydd yn agos ati, a bydd hyn yn eich helpu i dynnu siapiau mwy cywir. Os ydych am ddiffodd y swyddogaeth hon, cliciwch ar y botwm **Tynnu Amlinell y Ffin** i wneud hynny. Cliciwch unwaith eto i'w hailalluogi.<br><br>Os ydych wedi tynnu siâp a'ch bod yn tynnu siâp arall sy'n gorgyffwrdd â'r siâp cyntaf, caiff y siapiau eu huno i greu un siâp. Os byddwch yn tynnu siâp sy'n mynd dros ffin eich tir cofrestredig, yna caiff y siâp ei docio ar y ffin.<br><br>Sylwch hefyd os bydd y siâp yn mynd dros dir anghymwys (fydd yn ymddangos fel polygon coch), caiff hwnnw hefyd ei docio. |
|  | Defnyddiwch y botwm **Dileu yr arwynebedd** i ddileu'r siâp rydych wedi'i dynnu, neu ran ohono. Cliciwch i ddechrau tynnu'r siâp rydych am ei ddileu; cliciwch i greu pwyntiau ychwanegol; cliciwch ar y pwynt cyntaf i gwblhau'r siâp; neu gliciwch ddwywaith i ychwanegu pwynt a chwblhau'r siâp. Wedi ichi gwblhau'r siâp rydych am ei ddileu, caiff unrhyw ran o'r siâp gwreiddiol sy'n gorgyffwrdd â'r siâp hwn ei ddileu (ei docio). |
|  | Cliciwch ar y botwm **clirio** i ddileu unrhyw siapiau plannu rydych wedi'u llunio ar y map.<br><br>Pwysig: bydd hyn yn dileu'r siapiau rydych wedi'u creu ar yr eitem bresennol. Ni fydd yn dileu siapiau rydych eisoes wedi'u creu a'u safio. |


| | |
|---|---|
| <br><br> | Mae'r botwm **Gosodiadau** yn caniatáu i chi newid ffurf y map. Gallwch newid o lun o'r awyr i fap OS.<br><br>Gallwch hefyd guddio/dangos y labeli (rhifau) caeau a'r nodweddion parhaol. |
|  | Defnyddiwch y botymau **Zŵm** i zwmio i mewn ac allan ar y map.<br><br>Gallwch ddefnyddio'r olwyn ar eich llygoden i zwmio hefyd. |
| <br> | Cliciwch **Cwblhawyd** pan fyddwch wedi gorffen tynnu amlinell y tir rydych am blannu coetir arno. Bydd y map yn cau a byddwch yn mynd yn ôl i'r brif sgrin ichi gael nodi'r *Categori Plannu, Ffensio a Gatiau.* |

<u>Ychwanegu Lleiniau Plannu at eich Mynegiant o Ddiddordeb</u>


Ar y brif dudalen Plannu Coetir, cliciwch ar **Ychwanegu Coetir a Blennir** i greu llain rydych am blannu coed arno.




Bydd y sgrin nesaf yn caniatáu i chi dynnu amlinell o'r coetir rydych am ei blannu, dewis y categori plannu a nodi'r gatiau a'r gwaith ffensio. Yn gyntaf, cliciwch ar **Tynnwch amlinell y Gwaith Plannu:**



Bydd map y **Gwaith Plannu** yn llwytho:




<u>Tynnu amlinell o'r coetir sy'n cael ei blannu</u>

- Nodwch y darn o dir ar y map rydych am blannu coed arno gan ddefnyddio'r arfau sy'n cael eu disgrifio yn y *Golwg ar y Sgrin Fapiau* uchod. Zŵmiwch y map i lefel ddigonol fel bod yr arwynebedd a diddordeb yw plannu yn llenwi'r sgrin - wnaiff hyn sicrhau fod y lleiniau wedi ei llwytho, yn cynnwys y llain goch sydd ddim yn gymwys a'r nodweddion parhaol, ac fe fedrwch weld y manylion man o'r arwynebedd wrth lunio eich polygon.

- Cliciwch ar fotwm chwith y llygoden i osod y pwynt cyntaf. Symudwch y llygoden a chliciwch ar botwm chwith eto i osod pwynt nesa'r siâp, ac felly yn y blaen.



- Cariwch ymlaen i osod pwyntiau nes eich bod wedi creu amlinell y llain plannu. Yna er mwyn cwblhau'r siâp, cliciwch y botwm chwith unwaith ar y pwynt cyntaf neu gliciwch y botwm chwith ddwywaith.




- Pwysig: os bydd eich siâp yn mynd dros ffin eich tir cofrestredig, fel y gwelwch yn yr enghraifft isod, caiff y siâp ei docio i'r ffin fel y gwelwch isod ar y dde:







- Cliciwch **Cwblhawyd** ar ôl ichi orffen. Bydd y map yn cau a byddwch yn mynd yn ôl i'r sgrin Plannu Coetir. Bydd y llun yn dangos y lleiniau plannu y byddwch wedi'u tynnu a bydd y system wedi mesur eu harwynebedd yn awtomatig. Bydd hefyd yn dangos hyd y perimedr mewn metrau:




- Dewiswch **Gategori Coetir** y llain y byddwch yn plannu'ch coetir ynddo:




- Rhaid ichi gadarnhau arwynebedd y llain rydych am ei blannu trwy ei deipio yn y blwch **Arwynebedd y gwaith plannu (ha)**. Os oes angen, gall hwn fod yn wahanol i'r arwynebedd gafodd ei nodi'n awtomatig gan y system – er enghraifft, i gyfri'r rhannau nad oes modd eu plannu. Pwysig: rhaid i Arwynebedd y gwaith plannu (ha) fod o fewn +/-10% i fesuriadau'r system.





Ychwanegu Ffens at y Llain Plannu

- Cliciwch ar y botwm **Ychwanegu Ffensio** o dan yr adran tynnu amlinell y gwaith plannu:




- Cliciwch ar y botwm **Tynnu amlinell y ffens** i ddangos y tir rydych am ei ffensio




Defnyddiwch y botwm **Tynnu Amlinell** i ddangos y ffens. Bydd yr erfyn yn mynd gydag amlinell eich llain plannu i'ch helpu i dynnu llinell y ffens. Bydd yn mesur hyd y ffens wrth ichi ei thynnu. Cliciwch ddwywaith wedi ichi ddod at ddiwedd y ffens. Cliciwch ar **Cwblhawyd** er mwyn ei arbed.




- Bydd y map yn cau a byddwch yn mynd yn ôl i'r brif sgrin. Fe welwch lun o linell y ffens rydych wedi'i thynnu a'i hyd. Os ydych am newid llinell y ffens, cliciwch ar y botwm **Tynnu amlinell y ffens** eto.





- Os ydych yn hapus â'r ffens, dewiswch y Math o Ffens o'r gwymplen (ar hyn o bryd, dim ond un dewis sydd).




- Rhaid ichi gadarnhau hyd y ffens rydych am ei gosod trwy ei deipio yn y blwch **Hyd y Ffens**. Yn ôl eich disgresiwn, gall hyn fod yn wahanol i'r mesuriad a wneir yn awtomatig gan y system, ond ni fedr Hyd y Ffensio y byddwch yn rhoi i mewn fod yn fwy na 10% yn fwy na pherimedr yr Ardal Plannu.


- Cliciwch **Canslo** er mwyn dileu manylion y ffensio, cliciwch **Safio ac Ychwanegu un Arall** i ychwanegu ffens neu gât arall i'r llain plannu, neu cliciwch **Cadw a Dychwelyd** i fynd yn ôl i'r sgrin Plannu Coetir.





## Ychwanegu Gatiau at eich Mynegiant o Ddiddordeb

Dim ond am uchafswm o 5 giât y byddwch yn gallu gwneud cais.

- Cliciwch ar **Ychwanegu Gatiau** o dan yr adrannau tynnu amlinell y gwaith plannu a'r ffens.





- Dewiswch y math o Gât




Nodwch dim ond os ydych yn gosod ffens ar draws hawl tramwy cyhoeddus y cewch ychwanegu **Gât Ceffyl o Bren** neu **Gât Mochyn o Bren**.

Fodd bynnag, cewch ychwanegu unrhyw rai o'r **Gatiau Safonol** os nad oes hawl tramwy cyhoeddus. yn bresennol.

- Nodwch faint o Gatiau sydd eu hangen.  Pwysig: nid oes gofyn ichi nodi ble y byddwch yn gosod eich gatiau.





- Ar ôl ichi gofnodi'r Gatiau, gallwch **Safio ac Ychwanegu un Arall**, neu glicio **Cadw a Dychwelyd** i fynd yn ôl i'r sgrin Plannu Coetir.




Rydych bellach wedi nodi ble rydych am blannu'ch coetir, a'r gatiau a'r ffensio.  Bydd tudalen **y Tir sy'n cael ei Blannu** yn dangos crynodeb o'r tir fydd yn cael ei blannu, y gwaith ffensio a'r gatiau.


Gallwch newid y llain plannu gwreiddiol trwy glicio ar y botwm **Tynnwch Amlinell y Gwaith Plannu** neu newid / dileu llinell y ffens neu'r gatiau trwy glicio ar y botwm **Addasu** neu **Dileu.** Gallwch ychwanegu ffens neu gatiau trwy glicio ar **Ychwanegu Ffensio** neu **Ychwanegu Gatiau**.




Prif Dudalen Plannu Coetir

Bydd y brif dudalen Plannu Coetir yn dangos rhestr o bob llain plannu rydych wedi'i ychwanegu at eich cais.  Gallwch ychwanegu faint a fynnoch chi o leiniau plannu ond rhaid i'r arwynebedd fod o fewn rheolau'r cynllun.

Bydd unrhyw gamgymeriadau y bydd angen eu cywiro yn cael eu dangos ar y dudalen mewn coch. Cliciwch **addasu** ar lain plannu i fynd yn ôl i'w gywiro.




Pan fydd yr holl gamgymeriadau wedi’u cywiro a’ch bod wedi gorffen ychwanegu lleiniau plannu, ffensys a gatiau, cliciwch **Nesaf** i fynd i adran nesa’r Cais.




## Ychwanegu Opsiynau Dŵr at eich Mynegiant o Ddiddordeb

Wrth ddewis Categori Coetir –

- Coetiroedd Gwlyb a Glannau Neintydd 1100
- Coetiroedd Gwlyb a Glannau Neintydd 1600





Mae 3 optiwn ar gael - Pibelli cyflenwi dŵr, Gât ddŵr a Cafnau dŵr. Bydd yr opsiynau hyn yn ymddangos ar y brif sgrin **Plannu Coetiroedd** o dan eich Ardaloedd Plannu penodedig.




Pibelli cyflenwi dŵr

Dim ond am uchafswm o 500 metr y byddwch yn gallu gwneud fesul cais.

- Cliciwch ar **Ychwanegu Pibelli Cyflenwi Dŵr**.




- Cliciwch ar **Tynnu amlinell Pibelli Cyflenwi Dŵr**




- Tynnwch amlinell Pibelli Cyflenwi Dŵr.
- Dewiswch yr **Opsiwn Dŵr** a nodi **Hyd y Pibelli Cyflenwi Dŵr**.





Cliciwch ar **Safio ac Ychwanegu un Arall** i ddechrau creu Llain Plannu arall (gyda'i ffens a'i gatiau ei hun). Neu cliciwch ar **Cadw a Dychwelyd** i fynd i'r brif dudalen Plannu Coetir.




Gât Ddŵr

Dim ond uchafswm o 5 Gât Ddŵr y byddwch yn gallu gwneud fesul cais.

- Cliciwch ar **Ychwanegu Gât Ddŵr**.





- Cliciwch ar **Ychwanegu Gât Ddŵr**.




- Dewiswch yr safle ar gyfer y Gât Ddŵr.

- Dewiswch yr **Opsiwn Dŵr** a nodwch nifer y **Gatiau Dŵr**.





Cliciwch ar **Safio ac Ychwanegu un Arall** i ddechrau creu Llain Plannu arall (gyda'i ffens a'i gatiau ei hun). Neu cliciwch ar **Cadw a Dychwelyd** i fynd i'r brif dudalen Plannu Coetir.





<u>Cafnau dŵr</u>

Dim ond uchafswm o 5 Cafnau dŵr y byddwch yn gallu gwneud fesul cais.


- Cliciwch ar **Ychwanegu Cafnau Dŵr**.



- Cliciwch **Ychwanegu Cafnau Dŵr**




- Dewiswch yr safle ar gyfer y Cafnau Dŵr.
- Dewiswch yr **Opsiwn Dŵr** a nodwch nifer y **Cafnau Dŵr**.





Cliciwch ar **Safio ac Ychwanegu un Arall** i ddechrau creu Llain Plannu arall (gyda'i ffens a'i gatiau ei hun). Neu cliciwch ar **Cadw a Dychwelyd** i fynd i'r brif dudalen Plannu Coetir.



# ADRAN 4 – CYFLWYNO

## Camgymeriadau, Gwybodaeth a Chrynodeb

Mae manylion eich Mynegiant o Ddiddordeb wedi'u crynhoi ar y dudalen hon, gan gynnwys eich atebion i'r cwestiynau amrywiol, a'r darnau o dir rydych am blannu coetir arnynt.





Bydd unrhyw broblemau sydd wedi dod i'r amlwg yn eich Cais yn ymddangos yn y blwch **Camgymeriadau a Gwybodaeth** ar frig y sgrin. Sgroliwch i lawr y dudalen i weld manylion y camgymeriadau.

Gallwch fynd yn ôl i dudalennau blaenorol eich Cais i wirio a chywiro problemau drwy glicio ar y botwm **Yn ôl** neu ddewis y dudalen briodol ar ochr chwith y sgrin. (Bydd croes goch wrth ochr bob tudalen sydd â phroblem).



## Datganiadau ac Ymrwymiadau

Pan fydd yr holl gamgymeriadau wedi'u cywiro, gallwch fynd i'r dudalen Datganiadau ac Ymrwymiadau. Gofalwch eich bod wedi darllen y datganiadau a'r ymrwymiadau'n fanwl a'ch bod yn eu deall, cyn cyflwyno'ch ffurflen Mynegi Diddordeb.





Pan fyddwch wedi darllen y Datganiadau ac Ymrwymiadau, bydd angen i chi roi tic yn y blwch **Rwyf yn cytuno i'r datganiadau a'r ymrwymiadau uchod.**


Pan fyddwch wedi gwneud hynny, dewiswch 'Nesaf' i fynd i'r dudalen Gyflwyno.

## Tudalen Gyflwyno

Cliciwch i gyflwyno'ch ffurflen Mynegi Diddordeb.




Ar ôl ei chyflwyno'n llwyddiannus, fe welwch y neges hon:



## ADRAN 5 - BETH I'W WNEUD AR ÔL CYFLWYNO'R FFURFLEN YN LLWYDDIANNUS

Bydd crynodeb o'ch Ffurflen Mynegi Diddordeb yn cael ei hychwanegu at dudalen 'Negeseuon' eich cyfrif RPW Ar-lein dan y teitl **Dogfennau wedi dod i law Taliadau Gwledig Cymru**. Gofalwch fod yr wybodaeth arni'n gywir. Os oes gwybodaeth yn anghywir, anfonwch ateb i'r Neges yn esbonio beth sy'n bod. Gwnewch hyn cyn gynted ag y medrwch ar ôl gweld yr wybodaeth anghywir.

Am gyngor ar sut i ddefnyddio'r dudalen 'Negeseuon', ewch i llyw.cymru/taliadau-gwledig-cymru-ar-lein

- Dewiswch ddolen **Sut i ddefnyddio RPW Ar-lein** o'r ddewislen ar yr ochr dde.

- Dewiswch naill ai 'Cwsmeriaid', 'Asiantwyr/Undebau Amaethyddol' neu 'Asiantwyr/Undebau Amaethyddol yn gweithio ar ran Cwsmeriaid', yna dewiswch 'Negeseuon' o'r rhestr o gyfarwyddiadau cam wrth gam.

### Tystiolaeth Ddogfennol

Os hoffech gyflwyno'ch tystiolaeth ddogfennol ar-lein, defnyddiwch y dudalen **Negeseuon**. Atodwch yr holl ddogfennau i'r un neges er mwyn inni allu delio â'r cyfan dan un cyfeirnod.

### Newid ac Ychwanegu

Ar ôl i chi gyflwyno'ch Cais, fe welwch efallai fod angen newid neu ychwanegu manylion. Defnyddiwch y dudalen **Negeseuo**n i wneud hyn. Cliciwch ar y neges a gawsoch pan gyflwynoch chi'ch ffurflen Mynegi Diddordeb. Yna atodwch fanylion eich newid a/neu ddogfennau ychwanegol (os yn berthnasol) i'r un neges hon, er mwyn inni allu delio â'r cyfan dan yr un Cyfeirnod.

### Tynnu'ch ffurflen Mynegi Diddordeb yn ôl

Os am dynnu'ch Cais yn ôl wedi i chi ei gyflwyno ar-lein, ewch i'ch tudalen **Negeseuon**. Dewiswch y neges a gawsoch pan gyflwynoch chi'ch Cais. Nodwch ar y neges hon eich bod am ei dynnu yn ôl (gan atodi unrhyw wybodaeth berthnasol), er mwyn inni allu delio â'r cyfan dan un Cyfeirnod.